Adran Gwaith a Phensiynau

# Cyflwyniad i **Daliad Cymorth Profedigaeth**

**Hawdd i'w Ddarllen**




Ein cyfeirnod: **BSP1WER** 09/23

# Cynnwys

1 Cyflwyniad
Tudalen 3




2 Pwy all gael Taliad Cymorth Profedigaeth
Tudalen 5

# 1 Cyflwyniad

Adran Gwaith
a Phensiynau


Arian gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yw Taliad Cymorth Profedigaeth.




Mae'n helpu pobl y mae eu gŵr, gwraig, partner sifil neu bartner wedi marw yn ddiweddar.

**BSP**

Weithiau gelwir y Taliad Cymorth Profedigaeth yn BSP.




Gall pobl wneud cais hyd yn oed os oes ganddynt gynilion neu os ydynt yn gweithio.




Bydd y wybodaeth hon yn dweud mwy wrthych am BSP a phwy all ei gael.

Am ragor o daflenni BSP Hawdd i'w Ddarllen, ewch i [www.gov.uk](http://www.gov.uk)

Chwiliwch am **Easy Read BSP**.

# 2 Pwy all hawlio Taliad Cymorth Profedigaeth

**BSP**

Mae BSP wedi disodli'r budd-daliadau hyn:

- Lwfans Profedigaeth
- Taliad Profedigaeth
- Lwfans Rhiant Gweddw.




Os ydych yn cael Lwfans Rhiant Gweddw, byddwn yn parhau i dalu hyn.



Efallai y cewch BSP ar ôl i'ch partner farw. Ond, roedd rhaid i chi wedi bod:

- Yn briod
- Mewn partneriaeth sifil gofrestredig
- Yn cydfyw fel pâr briod â phant dibynnol neu'n feichiog.

**Esboniad Partneriaeth Sifil**

Mae **Partneriaeth Sifil** yn gytundeb cyfreithiol rhwng dau berson o unrhyw ryw.

I fod mewn **Partneriaeth Sifil** rhaid i chi fod yn 18 oed o leiaf.



Pan fu farw eich partner, roedd yn rhaid eich bod yn:

- Byw yn y DU neu mewn gwlad sy'n talu budd-daliadau profedigaeth
- O dan oedran **Pensiwn y Wladwriaeth**.

**Esbonio oedran Pensiwn y Wladwriaeth**

Eich **oedran** Pensiwn y Wladwriaeth yw'r oedran ieuengaf y gallwch gael Pensiwn y Wladwriaeth.

Am fwy o wybodaeth am oedran Pensiwn y Wladwriaeth, ewch i www.gov.uk/state-pension-age

Am fwy o wybodaeth am wledydd sy'n talu budd-daliadau dramor, ewch i www.gov.uk/claim-benefits-abroad/bereavement-benefits



Ni allwch hawlio BSP os ydych
yn y carchar.




Rhaid i'ch partner fod wedi talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol am o leiaf 25 wythnos mewn blwyddyn dreth gyfan.




Rhaid i'r flwyddyn dreth wedi bod ers 6 Ebrill 1975.

### Esbonio cyfraniadau Yswiriant Gwladol

Mae person yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol unwaith y byddant yn cyrraedd 16 oed ac yn dechrau ennill swm penodol o arian.

Mae hyn yn berthnasol i bobl gyflogedig a hunangyflogedig.

Am ragor o wybodaeth am gyfraniadau Yswiriant Gwladol, ewch i www.gov.uk/yswiriant-gwladol



Os na thalodd eich partner ddigon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol, Efallai y byddwch yn dal i allu cael BSP os buont farw oherwydd:

- Damwain yn y gwaith
- Clefyd a achoswyd gan waith.

## Os oeddech yn briod neu mewn partneriaeth sifil gofrestredig




**21**
**mis**

Gallwch wneud cais os bu farw eich partner yn y 21 mis diwethaf.




**3**
**mis**

Rhaid i chi wneud cais o fewn
3 mis i farwolaeth eich partner
i gael y swm llawn.

I gael gwybod beth yw'r swm llawn, ewch i
[www.gov.uk/taliad-cymorth-profedigaeth/beth-fyddwch-yn-ei-gael](www.gov.uk/taliad-cymorth-profedigaeth/beth-fyddwch-yn-ei-gael)

**BSP** ✓

Efallai y byddwch yn gallu hawlio
BSP os cadarnhawyd marwolaeth
eich partner dros 21 mis ar ôl
iddynt farw.




**+21**
**mis**

Gallai hyn fod oherwydd na chafwyd
hyd i'w corff am amser hir ar ôl
iddynt farw.

Neu roeddech wedi gwahanu oddi
wrthynt ac nid oeddech yn gwybod
eu bod wedi marw.




Mae gwybodaeth am hawlio BSP ar gael yn y llyfryn Hawdd iw Ddarllen:

- Sut i wneud cais am Daliad Cymorth Profedigaeth.


Am ragor o daflenni BSP Hawdd i'w Ddarllen, ewch i [www.gov.uk](http://www.gov.uk)

Chiliwch am **Easy Read BSP**.

## Os oeddech yn byw gyda'ch gilydd a bod gennych blant




Efallai y gallwch hawlio os bu farw eich partner ar neu ar ôl 6 Ebrill 2017.




Roedd yn rhaid i chi wedi bod o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth pan fu farw eich partner.




Os ydych yn gwneud cais wedi'i ôl-ddyddio, roedd yn rhaid i chi wedi bod o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar 30 Awst 2018.



Pan fu farw eich partner, mae'n rhaid eich bod naill ai'n:

- Beichiog
- Cael neu gellid cael Budd-dal Plant.

**Lwfans Rhiant Gweddw**

Os bu farw eich gŵr, gwraig, partner sifil neu bartner cyn 6 Ebrill 2017, efallai y gallwch gael Lwfans Rhiant Gweddw.

Am ragor o wybodaeth am Lwfans Rhiant Gweddw, ewch i www.gov.uk/lwfans-rhaint-gweddw

Am ragor o wybodeth am BSP, ewch i www.gov.uk/taliad-cymorth-profedigaeth